| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD** | **28 Mehefin 2018** |
| **TEITL** | **Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| **PWRPAS** | **Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |

## 1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.

2.2 Rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y mater hwn yw i fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1.0 Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2012/13 a 2017/18 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella.

Rydym wedi nodi 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis Tachwedd 2017.

Rydym wedyn yn nodi ein 'Casgliad' o'r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni'r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu'r argymhelliad 'wedi'i gwblhau', yntau a yw yn parhau 'ar waith'. Mater i'r Pwyllgor hwn yw barnu a yw'n cytuno â'r 'Casgliadau' a'i peidio.

3.1.1 Ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn fis Tachwedd 2017 mae un adroddiad cenedlaethol wedi ei gyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mai, sef 'Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ac Anableddau Dysgu yn Strategol'. Gan nad yw'r adroddiad hwn wedi ei ystyried yn llawn gennym fel Cyngor eto,

mae hi'n gynamserol i nodi'r argymhellion ac unrhyw ymatebion iddynt fel rhan o'r adroddiad hwn.

3.1.2 Yn unol â dymuniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2016, mae pob un o'r cynigion gwella sydd wedi eu nodi yn Atodiad 1 yn rai y mae'r Pwyllgor wedi dyfarnu oedd yn parhau 'heb ei gychwyn', 'wrthi'n cael ei gynllunio' neu 'ar waith' pan drafodwyd y mater ddiwethaf fis Tachwedd 2017. Weithiau, gall yna fwy o argymhellion fod wedi codi'n wreiddiol o'r adroddiadau archwilio hyn, ond mae'r pwyllgor hwn eisoes wedi barnu ei fod yn fodlon bod trefniadau digonol yn eu lle i ymateb iddynt. Rhag ail-adrodd, nid yw'r argymhellion sydd wedi eu hateb wedi eu nodi yn Atodiad 1.

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2013-2018